Polisi Ansawdd a Gwella Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro

Ymrwymiad

O fewn y polisi hwn mae'r term "Grŵp" yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Yn sail i'r polisi mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf i gymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ddysgwyr a chyflogwyr. Bwriad y Grŵp yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn, gan eu galluogi i gyrraedd y safonau uchaf o fewn eu rhaglenni dysgu. Yn allweddol i gwblhau ein bwriad, mae'r ymrwymiad sydd gennym i welliant parhaus ac i'n prosesau Sicrhau Ansawdd a gwella.

Mae'r polisi yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Grŵp.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.
- Ymwelwyr y Grŵp.

Datganiadau'r Polisi

Mae'n Bolisi Grŵp y byddwn yn:

- Sicrhau bod yr holl staff o fewn y Grŵp yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ar y cyd i ddatblygu a gwella safon darpariaeth, drwy ddatblygu diwylliant sy'n hunan-fyfyriol, yn onest ac yn dryloyw.

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022

- Gwella ansawdd profiad y dysgwr drwy sefydlu a chynnal systemau ansawdd sydd wedi'u dylunio i alluogi adolygiadau manwl a rheolaidd, a gwelliant parhaus o ran safon y gwasanaeth a gynigwn (i gynnwys addysgu, dysgu ac arferion asesu).
- Darparu mecanweithiau ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol iddynt fynegi eu safbwyntiau ynghylch ein gwasanaethau, cael sylw i'w hadborth, a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau o fewn y Grŵp.
- Gosod, monitro a datblygu targedau addas a realistig ar gyfer yr holl feysydd gweithgarwch a'r holl dimau o fewn y Grŵp, wedi'u meincnodi lle bo hynny'n bosib.
- Bod yn ymatebol ac yn atebol i'n nifer o'n rhanddeiliaid, gan gynnwys ein dysgwyr, y gymuned leol ac asiantaethau'r llywodraeth.
- Sefydlu a chynnal systemau Rheoli Ansawdd a gweithdrefnau eraill sy'n galluogi'r Grŵp i werthuso a nodi ein cryfderau, meysydd allweddol i'w datblygu, ac ymateb i anghenion o ran gwella mewn modd effeithiol.
- Sicrhau bod staff yn gallu ymateb yn effeithiol i heriau targedau hunan-werthuso a sicrhau gwelliant parhaus drwy fuddsoddi mewn datblygu sgiliau staff drwy gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a phob math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu'r Swyddfa Dyfarnwyr AU Annibynnol (nid rhestr gynhwysfawr mo hon).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod trefniadau mewn perthynas â datblygiadau a gwelliannau o ran Ansawdd yn effeithiol ar draws y Grŵp.
- Datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol ar draws y Grŵp, i sicrhau y gweithredir ar ganlyniadau mewn perthynas â'r Polisi a'i weithdrefnau perthnasol mewn modd addas er mwyn cefnogi gwelliannau mewn darpariaeth.

Mae'r Staff Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:

- Weithredu, monitro a sicrhau effaith y polisi hwn.
- Sicrhau bod gan bob darparwr priodol weithdrefnau Sicrhau Ansawdd a phrosesau a chylchoedd gwella addas yn eu lle er mwyn cefnogi'r polisi hwn.
- Monitro'r holl weithgareddau yn ymwneud â gweithgareddau Sicrhau Ansawdd, ac adrodd arnynt.

Bydd yr holl Staff ar draws y Grŵp yn:

- Ymddwyn yn unol â'r Polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig gan gynnwys rhai gan gyrff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu sefydliadau addysg uwch.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr ac ymwelwyr am y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig a'u cefnogi i gael unrhyw gymorth.

Bydd yr holl ddysgwyr ar draws y Grŵp yn:

- Mynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon gyda staff addysgu neu staff cefnogi.
- Darparu adborth drwy lais y dysgwr yn ôl y galw.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.
Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Cyfeiriadau

Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau eraill o fewn holl ddarparwyr priodol y Grŵp yn berthnasol i weithrediad y Polisi Ansawdd.

Canllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â safonau academaidd
Canllawiau safonau partner academaidd Sefydliad Addysg Uwch

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad drwy gyfrwng eu sianelau cyfathrebu mewnol a rheoli polisïau.

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Rhif Adolygu:	1
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2020
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2022

Dyddiad cymeradwyo:	**7 Gorffennaf 2020**	**Rheolwr Atebol:**	**Deon Ansawdd**
Cymeradwywyd Gan:	**Y Prif Fwrdd**	**Arweinydd Gweithredol:**	**Dirprwy Bennaeth**
Dyddiad Adolygu Nesaf:	**Gorffennaf 2022**	**Hygyrch i Fyfyrwyr:**	**Ydy**